

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	14 HYDREF 2020
TEITL:	DIWEDDARIAD INCWM SEFYDLOG PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
PWRPAS:	I DDIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y TROSGLWYDDIAD INCWM SEFYDLOG
ARGYMHELLIAD:	NODI'R WYBODAETH
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. Cyflwyniad

Yn ystod Gorffennaf a Medi 2020 creuwyd pump cronfa Incwm Sefydlog gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru, a mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn dau ohonynt:

- **Cronfa Multi Asset Credit**
- **Cronfa Absolute Return Bond**

2. Cronfa Multi Asset Credit

Trosglwyddwyd ein buddsoddiad gyda Fidelity Global Equity ar 27ain Gorffennaf 2020. Buddsoddwyd swm o £166,119,549.08 yn y Multi Asset Credit Fund.

3. Cronfa Absolute Return Bond

Adroddwyd yn y Pwyllgor diwethaf bod y cronfa yma yn lawnsio yng Ngorffennaf 2020. Yn anffodus darganfuwyd nad oedd buddsoddiadau presennol yn gymwys i'r strwythur ACS, ac felly creuwyd cronfa arall gyda dyddiad lawnsio o 1af Hydref 2020. Esboniwyd a thrafodwyd hyn yn fanylach ym mhanel buddsoddi mis Medi.

Mae'r trosglwyddiad wedi digwydd ac mae ein buddsoddiad gyda Insight o £291,238,172.22 wedi ei drosglwyddo yn llwyddiannus ar Hydref 1af i'r Absolute Return Bond Fund.

4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.